Department for Energy Security & Net Zero

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgynghoriad polisi rheoli sylweddau ymbelydrol a datgomisiynu niwclear: ymateb y Llywodraeth

Mai 2024

© Hawlfraint y Goron 2024

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

# Cynnwys


Cynnwys 3

Cyflwyniad 4

Rheoli ffynonellau ymbelydrol 5

Rheoli gollyngiadau hylifol a nwyol ymbelydrol 7

Rheoli gwastraff ymbelydrol solet yn y sectorau niwclear ac anniwclear 9

- Dull seiliedig ar risg 9
- Cymhwyso'r hierarchaeth gwastraff 11
- Gwaredu gwastraff lefel ganolraddol ger yr wyneb yng Nghymru a Lloegr 14
- Gwaredu ar y safle 23

Datgomisiynu niwclear 26

Mewnforio ac allforio sylweddau ymbelydrol 31

Rheoli deunyddiau niwclear a thanwydd a ddisbyddwyd 33

Materion a godwyd y tu hwnt i gwmpas cynigion yr ymgynghoriad 37

Atodiad 1: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd 41

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, *Rheoli Sylweddau Ymbelydrol a Datgomisiynu Niwclear*, a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2023 ac a gaewyd ar 24 Mai 2023.

Mae'n cynnwys crynodeb byr o gynigion yr ymgynghoriad, crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i'r pwyntiau a godwyd.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar fframwaith polisi wedi'i gydgrynhoi a'i ddiweddaru ar gyfer y DU gyfan ar reoli sylweddau ymbelydrol a datgomisiynu niwclear. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion i ddiwygio, diweddaru ac egluro rhai o'r polisïau hyn gyda'r nod o sbarduno gwelliannau mewn rhaglenni datgomisiynu a glanhau niwclear ynghyd â rheoli deunyddiau ymbelydrol, a'r gwastraff a gynhyrchir ganddynt.

Cawsom 330 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan aelodau o'r cyhoedd, llywodraeth leol, grwpiau rhanddeiliaid safleoedd niwclear, diwydiant, y rheoleiddwyr a grwpiau buddiant. O'r ymatebion hyn, cododd 136 faterion a oedd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad. Serch hynny, rydym wedi mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion hyn ar dudalen **Error! Reference source not found.Error! Bookmark not defined.**. Mae rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd ac a roddodd eu caniatâd i'w gwybodaeth adnabyddadwy gael ei chyhoeddi i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â phob cwestiwn wedi cael ei gynnwys er mwyn rhoi cyd-destun. Ni wnaeth rhai ymatebwyr nodi'n benodol p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion. Lle nad ydym wedi gallu canfod beth yw safbwynt yr ymgynghorai, rydym wedi marcio'r ateb fel un anhysbys. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn.

Drwy gydol y ddogfen, defnyddir y termau a'r ymadroddion a ddangosir yn nhabl 1 i nodi nifer ac ystod ganrannol yr ymatebion i bob cwestiwn. Nid yw'r rhain yn cynnwys ymatebion a oedd yn "anhysbys".

**Tabl 1**

| | |
|---|---|
| "Nifer bach" | < 10 ymatebydd |
| "Ambell" | < 30% |
| "Rhai" | 30%-70% |
| "Llawer" | > 70% |
| "Mwyafrif" | > 50% |

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion yn dilyn strwythur y polisi terfynol sydd wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â: https://www.gov.uk/government/consultations/managing-radioactive-substances-and-nuclear-decommissioning.

# Rheoli ffynonellau ymbelydrol

| **A ydych chi'n meddwl bod y datganiadau polisi drafft ar ffynonellau ymbelydrol yn adlewyrchu'n gywir arferion a rheoliadau presennol? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
|---|---|
| Cytuno | 25 |
| Anghytuno | 19 |
| Anhysbys | 41 |
| Cyfanswm | 85 |
| **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut i wella'r bennod hon ar ffynonellau ymbelydrol? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
| Cyfanswm | 83 |

## Cynnig yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi datganiad polisi drafft a oedd yn cydgrynhoi arferion a rheoliadau presennol ar ffynonellau ymbelydrol. Mae rheoli ffynonellau ymbelydrol yn fater datganoledig ac eithrio materion sy'n ymwneud â diogelwch gwladol, sydd wedi'u cadw yn ôl.

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y datganiad polisi yn adlewyrchu'r rheoliadau a'r arferion presennol yn gywir. Gwnaed yr awgrymiadau canlynol i wella'r datganiad polisi:

- roedd rhai ymatebwyr yn credu bod y datganiad polisi yn cynnwys gormod o fanylion am ofynion rheoliadol, gan gynnwys disgrifiadau o fân wahaniaethau rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y gellid gwella'r polisi drwy leihau dyblygu diangen;
- roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r polisi nodi gofynion ar lefel y DU gyfan gyda gwybodaeth fwy manwl a thechnegol yn cael ei chyflwyno mewn dogfennau strategaeth a chanllawiau ategol;
- gofynnodd nifer bach o ymatebwyr am ragor o eglurder ynghylch pryd a sut y caiff ffynonellau segur eu hystyried yn wastraff, a sut y byddai'r hierarchaeth gwastraff yn berthnasol iddynt. Gwnaethant hefyd nodi y dylid egluro mai dim ond i ffynonellau seliedig uwch eu hactifedd y mae'r gofyniad i roi gwybod am symud ffynonellau seliedig i safleoedd niwclear a/neu oddi wrthynt yn berthnasol;
- awgrymodd ambell ymatebydd y dylai fod cyllideb genedlaethol ar gyfer gwaredu ffynonellau amddifad ac anogaeth gliriach i'w canfod mewn ardaloedd risg uchel.

Codwyd y pryderon canlynol gan nifer bach o ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r datganiad polisi:

- mae'r datganiad polisi yn rhy gymhleth i'r cyhoedd allu ei ddeall;
- dylid gwahardd pob defnydd o ffynonellau ymbelydrol a'u mewnforio a'u hallforio.

## Ymateb y Llywodraeth

Gellir defnyddio ffynonellau ymbelydrol yn ddiogel at amrywiaeth o ddibenion buddiol, gan gynnwys ym meysydd meddygaeth, diwydiant, ymchwil ac addysg. Amcan y polisi yw caniatáu defnydd diogel a buddiol o ffynonellau ymbelydrol.

Rydym wedi cadw sylwedd y polisi fel y'i drafftiwyd yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau drafftio er mwyn mynd i'r afael â'r ceisiadau am ragor o eglurder a lleihau dyblygu diangen.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- symleiddio strwythur y datganiad gan roi gwybodaeth ategol ar wahân;
- egluro sut y dylai'r hierarchaeth gwastraff fod yn berthnasol i ffynonellau ymbelydrol;
- egluro'r gofynion penodol sy'n berthnasol i reoli ffynonellau segur yn effeithlon.

Rydym wedi nodi'n gliriach ein hymrwymiad i annog canfod ffynonellau amddifad, yn enwedig mewn ardaloedd risg uchel megis iardiau sborion a phyrth mynediad. Rydym yn dal yn ymrwymedig i ddatblygu ateb cyllido hirdymor ar gyfer eu gwaredu.

# Rheoli gollyngiadau hylifol a nwyol ymbelydrol

| **A ydych yn meddwl bod y datganiad polisi drafft ar ollyngiadau hylifol a nwyol ymbelydrol yn adlewyrchu'n gywir y polisi, yr arferion a'r rheoliadau presennol? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
|---|---|
| Cytuno | 23 |
| Anghytuno | 4 |
| Anhysbys | 56 |
| Cyfanswm | 83 |
| **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut i wella'r bennod hon ar ollyngiadau hylifol a nwyol ymbelydrol? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb** | |
| Cyfanswm | 81 |

## Cynnig yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi datganiad polisi drafft a oedd yn cydgrynhoi arferion a rheoliadau presennol ar ollyngiadau hylifol a nwyol. Mae polisi ar wastraff ymbelydrol, gan gynnwys gollyngiadau hylifol a nwyol, yn fater datganoledig.

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y datganiad polisi yn adlewyrchu'r rheoliadau a'r arferion presennol yn gywir. Gwnaed yr awgrymiadau canlynol ynghylch sut i wella'r datganiad polisi:

- dylid ystyried cyfarwyddyd clir a phenodol ar gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff at wastraff hylifol a nwyol;
- dylid gwirio'r ddogfen bolisi er mwyn sicrhau ei bod yn gyson â'r Canllawiau Statudol perthnasol ar reoleiddio gollyngiadau i'r amgylchedd a Strategaeth Gollyngiadau Ymbelydrol y DU;
- dylid ystyried argymhellion adolygiad Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) o hylifau ymbelydrol a'u hymgorffori yn y datganiad polisi;
- dylid lleihau lefel y manylder ynglŷn â'r rheoliadau presennol a'r termau technegol am nad yw bob amser yn glir beth sydd wedi'i fwriadu fel datganiad polisi a beth nad yw wedi'i fwriadu felly;
- dylai'r polisi nodi gofynion ar lefel y DU gyfan gyda gwybodaeth fwy manwl a thechnegol yn cael ei chyflwyno mewn dogfennau strategaeth a chanllawiau ategol.

Codwyd y pryderon canlynol gan nifer bach o ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r datganiad polisi:

- dylid gwahardd pob cynllun sy'n cynhyrchu gwastraff ymbelydrol;
- mae angen gwaith ymchwil a mesurau i ddiogelu'r amgylchedd sy'n fwy llym.

# Ymateb y Llywodraeth

Mae sylwedd y polisi yn dal fel y'i drafftiwyd yn yr ymgynghoriad. Nid yw'n ddymunol cyflwyno ymbelydredd yn ddiangen i'r amgylchedd, hyd yn oed ar lefelau lle mae'r dosau i bobl a rhywogaethau eraill yn isel. Lle nad yw osgoi hyn yn rhesymol ymarferol, neu lle mae'n anochel, y brif egwyddor yw bod rhaid i weithredwyr sy'n gwaredu nwy a hylif drwy ollyngiadau i'r amgylchedd sicrhau eu bod islaw'r cyfyngiadau dos perthnasol er mwyn diogelu pobl a'r amgylchedd.

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau drafftio i'r datganiad polisi terfynol er mwyn mynd i'r afael â'r ceisiadau am ragor o eglurder a lleihau dyblygu diangen. Mae'r rhain yn cynnwys:

- symleiddio strwythur y datganiad gan gyflwyno'r wybodaeth ategol ar wahân;
- egluro ym mhennod 8 sut mae'r hierarchaeth gwastraff yn berthnasol i wastraff hylifol a nwyol cyn ei ryddhau.

Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried argymhellion UKHSA ac rydym yn disgwyl ymgynghori ar rai ohonynt maes o law. Mae'n debygol y bydd unrhyw newidiadau yn rhai technegol y bydd yn well eu hadlewyrchu mewn canllawiau yn hytrach na pholisi.

# Rheoli gwastraff ymbelydrol solet yn y sectorau niwclear ac anniwclear

| **Mae'r polisi gwastraff ymbelydrol solet a nodir uchod yn cynnwys polisi presennol a pholisïau a fyddai'n cael eu gweithredu pe bai'r cynigion yn Rhan 1 yn cael eu cymeradwyo. A gytunwch fod y datganiad polisi yn cynnwys yr holl bolisïau perthnasol ar reoli gwastraff ymbelydrol solet?** | |
|---|---|
| Cytuno | 26 |
| Anghytuno | 25 |
| Anhysbys | 31 |
| Cyfanswm | 82 |
| **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r bennod hon ar reoli gwastraff ymbelydrol solet? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
| Cyfanswm | 96 |

Caiff yr ymatebion i'r cwestiynau uchod eu cofnodi yn yr adrannau canlynol.

## Dull seiliedig ar risg

| **A ydych yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg fel fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer rheoli'r holl wastraff ymbelydrol solet? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
|---|---|
| Cytuno | 74 |
| Anghytuno | 31 |
| Anhysbys | 27 |
| Cyfanswm | 132 |

### Cynnig yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno cynigion i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am greu a rheoli gwastraff ymbelydrol solet ddilyn dull seiliedig ar risg fel fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer rheoli pob math o wastraff ymbelydrol solet. Mae hyn eisoes yn bolisi ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn yr Alban a gwastraff lefel isel (GLI) ledled y DU. Mae dull seiliedig ar risg yn golygu gwneud penderfyniadau ynghylch sut i reoli'r gwastraff ar sail ei holl briodweddau (radiolegol, cemegol, ffisegol) a'r risgiau a'r peryglon y mae'n eu hachosi i bobl a'r amgylchedd, yn hytrach na seilio penderfyniadau ar ddosbarthiadau

ymbelydredd y gwastraff yn bennaf. Mae polisi ar reoli gwastraff ymbelydrol yn fater datganoledig.

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn gwneud hynny am y rhesymau canlynol:

- mae dull seiliedig ar risg o reoli gwastraff ymbelydrol yn cynrychioli arferion gorau rhyngwladol ac mae'n ddull profedig a sefydledig sy'n cael ei ddefnyddio yn y diwydiant niwclear drwyddo draw;
- mae'n gosteffeithiol a byddai'n arwain at enillion effeithlonrwydd a ffordd gyson o weithredu ymhob rhan o'r DU (mae hyn eisoes i'w weld yn y defnydd o'r dull seiliedig ar risg ar gyfer GLI);
- dylai dull cymesur, pragmatig a chyfannol y polisi o reoli gwastraff ymbelydrol sicrhau y caiff gwastraff ei drin yn y ffordd fwyaf priodol ar sail ei briodweddau, natur y perygl y mae'n ei achosi, ac am faint o amser y mae'n achosi'r perygl hwnnw;
- bydd (ar y cyd â chynigion eraill yn yr ymgynghoriad), yn cyfrannu at ddiogelu a gwarchod seilwaith allweddol fel y Storfa Gwastraff Lefel Isel (LLWR) a'r cyfleuster gwaredu daearegol arfaethedig;
- bydd yn lleihau'r angen am gyfleusterau storio interim.

Codwyd y pryderon canlynol gan yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cefnogi'r cynnig:

- mynegodd ambell ymatebydd bryderon y byddai mabwysiadu dull seiliedig ar risg yn llai diogel neu'n fwy mentrus i bobl a'r amgylchedd na dull cwbl ragofalus sy'n seiliedig ar ddefnyddio'r categorïau gwastraff ymbelydrol;
- mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryderon y bydd cynhyrchwyr gwastraff yn cael eu cymell i wneud dewisiadau mwy mentrus os byddant yn rhatach.

Ar ben hynny, gofynnodd ymatebwyr am ragor o eglurder ynghylch y canlynol:

- sut y byddai dull seiliedig ar risg yn cael ei roi ar waith yn ymarferol a sut y byddai'n gweithio ochr yn ochr â'r fframwaith rheoleiddio presennol;
- sut y bydd dull seiliedig ar risg yn gweithio ochr yn ochr â'r dosbarthiadau gwastraff ymbelydrol;
- defnyddio dull seiliedig ar risg ar gyfer gwastraff hylifol a nwyol.

## Ymateb y Llywodraeth

Ni fydd mabwysiadu dull seiliedig ar risg fel fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer rheoli pob math o wastraff ymbelydrol yn arwain at ostwng safonau diogelwch. Mae Llywodraeth y

DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ymrwymedig i gynnal y safonau uchaf o ran diogelwch a diogelu’r amgylchedd. Bydd y rheoleiddwyr annibynnol yn sicrhau y caiff y safonau uchaf o ran diogelwch a diogelu’r amgylchedd eu cynnal a byddant yn cymryd camau gorfodi os na fydd gweithredwyr yn glynu wrth y safonau hynny.

Bwriedir i ddull seiliedig ar risg annog penderfyniadau cymesur a chynaliadwy ynghylch y llwybr rheoli priodol ar gyfer gwastraff ymbelydrol, er mwyn i weithredwyr ystyried yr ystod lawn o risgiau a pheryglon a achosir gan y gwastraff i bobl a’r amgylchedd. Bydd dosbarthiadau gwastraff ymbelydrol yn parhau i gael eu defnyddio fel rhan o ddull seiliedig ar risg.

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau ac ychwanegiadau i’r testun yn y polisi terfynol er mwyn mynd i’r afael â’r ceisiadau am ragor o eglurder. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn glir bod dull seiliedig ar risg yn berthnasol i reoli gwastraff solet, hylifol a nwyol.

# Cymhwyso’r hierarchaeth gwastraff

| **A ydych yn cytuno y dylai cymhwyso'r hierarchaeth wastraff fod yn ofyniad polisi penodol ar gyfer rheoli'r holl wastraff ymbelydrol solet lle bo hynny'n ymarferol? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
|---|---|
| Cytuno | 80 |
| Anghytuno | 37 |
| Anhysbys | 20 |
| Cyfanswm | 137 |

## Cynnig yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno cynigion i’w gwneud yn ofynnol defnyddio’r hierarchaeth gwastraff ar gyfer rheoli pob categori o wastraff ymbelydrol solet. Mae hyn eisoes yn bolisi ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn yr Alban a GLI ledled y DU. Nod cymhwyso’r hierarchaeth gwastraff mewn ffordd fwy unffurf yw atal neu leihau faint o wastraff ymbelydrol a gaiff ei greu. Mae polisi ar reoli gwastraff ymbelydrol yn fater datganoledig.

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cefnogi’r cynnig. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi’r cynnig yn gwneud hynny am y rhesymau canlynol:

- mae cymhwyso’r hierarchaeth gwastraff yn cynrychioli arferion gorau rhyngwladol a byddai’n sicrhau y caiff gwastraff ymbelydrol ei reoli mewn ffordd sy'n gyson â diwydiannau eraill, gan gynnwys y diwydiant rheoli gwastraff anymbelydrol;

- mae'n gyson â pholisïau amgylcheddol ehangach y llywodraeth o ran annog ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau;
- bydd yn arwain at arbedion cost oherwydd enillion effeithlonrwydd drwy sicrhau arferion rheoli mwy unedig ar gyfer yr holl ddosbarthiadau gwastraff ac ym mhob rhan o'r DU;
- bydd (ar y cyd â chynigion eraill), yn cyfrannu at ddiogelu a gwarchod seilwaith allweddol fel yr LLWR a'r cyfleuster gwaredu daearegol arfaethedig;
- bydd yn helpu i leihau'r angen am gyfleusterau storio interim;
- nododd ambell ymatebydd y manteision y mae cymhwyso'r hierarchaeth gwastraff wedi'u cynnig i reoli GLI yng Nghymru a Lloegr ac i reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn yr Alban;
- roedd yr ymatebion cefnogol yn canolbwyntio ar fanteision dilyn egwyddorion cynaliadwy, fel cymhwyso'r hierarchaeth gwastraff, i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd.

Codwyd y pryderon canlynol gan yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cefnogi'r cynnig:

- cododd ambell ymatebydd bryderon y bydd cymhwyso'r hierarchaeth gwastraff, heb warchodaeth a goruchwyliaeth briodol, yn cynyddu'r risg i'r cyhoedd a/neu'r amgylchedd;
- dadleuodd nifer bach o ymatebwyr y dylem atal yr holl wastraff ymbelydrol rhag cael ei gynhyrchu drwy wahardd defnyddio deunyddiau ymbelydrol (eir i'r afael â'r pwynt hwn yn yr adran sy'n dechrau ar dudalen 36);
- awgrymodd ambell ymatebydd na ddylai "ailddefnyddio" fod yn opsiwn ar yr hierarchaeth gwastraff lle nad yw ailddefnyddio ar unwaith yn bosibl.

Ar ben hynny;

- tynnodd ambell ymatebydd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i bennu nodweddion gwastraff er mwyn sicrhau y caiff manteision yr hierarchaeth gwastraff eu gwireddu;
- gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o eglurder ynghylch sut y byddai'r hierarchaeth gwastraff yn cael ei chymhwyso'n ymarferol a sut y byddai'n gweithio ochr yn ochr â'r fframwaith rheoleiddio presennol;
- gofynnodd ambell ymatebydd am eglurder ynghylch cymhwyso'r hierarchaeth gwastraff ar gyfer gwastraff hylifol a nwyol a'r rhyngweithio rhwng y bennod hon a'r bennod ar ollyngiadau hylifol a nwyol.

## Ymateb y Llywodraeth

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau ac ychwanegiadau drafftio bach i'r testun yn y polisi terfynol er mwyn mynd i'r afael â cheisiadau am ragor o eglurder ac ychwanegiadau.

## Diogelwch ac effaith amgylcheddol

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn rhoi pwys mawr ar ddiogelwch niwclear a diogelu'r amgylchedd a byddant yn parhau i gynnal yr un safonau uchel yn y meysydd hyn. Bydd y rheoleiddwyr annibynnol yn sicrhau y caiff y safonau uchaf o ran diogelwch a diogelu'r amgylchedd eu cynnal a byddant yn cymryd camau gorfodi os na fydd gweithredwyr yn glynu wrth y safonau hynny.

## Ailddefnyddio deunyddiau ymbelydrol

Mae'r hierarchaeth gwastraff yn adnodd sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sydd wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd lawer yn genedlaethol ac yn rhyngwladol mewn sawl sector. Ni fyddai'n bosibl dileu'r opsiwn "ailddefnyddio" o'r hierarchaeth gwastraff ar gyfer deunyddiau na ellir eu hailddefnyddio ar unwaith oherwydd byddai hynny'n arwain at golli cyfleoedd i barhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd â phosibl a chael y gwerth gorau posibl amdanynt, gan arwain at ganlyniadau amgylcheddol gwaeth.

## Pennu nodweddion gwastraff

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cydnabod pwysigrwydd pennu nodweddion gwastraff wrth reoli gwastraff ymbelydrol yn effeithiol. Nod ein polisïau yw cynnig hyblygrwydd er mwyn galluogi marchnad lwyddiannus ar gyfer gwasanaethau gwastraff, gan gynnwys pennu nodweddion gwastraff. Bydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y rhain er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti yn y farchnad i fodloni gofynion y presennol a'r dyfodol.

## Cymhwyso at wastraff hylifol a nwyol

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'r polisi er mwyn ei gwneud yn gliriach bod yr hierarchaeth gwastraff yn berthnasol i reoli gwastraff solet, gwastraff hylifol a gwastraff nwyol cyn eu gwaredu. Gwaredu yw cam olaf yr hierarchaeth gwastraff. Mae Pennod 7 yn ymdrin â gwaredu gwastraff hylifol a nwyol drwy ollyngiadau a ganiateir i'r amgylchedd. Mae Pennod 8 yn ymdrin â gwaredu gwastraff ymbelydrol solet, gan gynnwys gwastraff hylifol sydd wedi cael ei wneud yn ansymudol ac y bwriedir ei waredu fel gwastraff solet.

# Gwaredu gwastraff lefel ganolraddol ger yr wyneb yng Nghymru a Lloegr

| **A ydych yn cytuno â'r diwygiad arfaethedig i'r polisïau presennol ar waredu daearegol i ganiatáu gwaredu GLG mewn cyfleusterau ger yr wyneb? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
|---|---|
| Cytuno | 64 |
| Anghytuno | 61 |
| Anhysbys | 13 |
| Cyfanswm | 138 |
| **A ydych yn cytuno â'r fframwaith polisi arfaethedig ar gyfer datblygu cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb gan yr NDA ar gyfer gwaredu GLG llai peryglus? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
| Cytuno | 64 |
| Anghytuno | 78 |
| Anhysbys | 17 |
| Cyfanswm | 159 |

## Cynnig yr ymgynghoriad

Gwnaethom gynnig diwygio polisïau Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon ar roi gwaredu daearegol ar waith er mwyn ei gwneud yn glir nad oes rhaid i bob math o GLG gael ei waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol. Gellir gwaredu GLG llai peryglus mewn cyfleusterau ger yr wyneb lle mae'n ddiogel gwneud hynny. Nid oes angen dal ac ynysu'r gwastraff, fel sy'n bosibl mewn cyfleuster gwaredu daearegol, er mwyn ei reoli'n ddiogel. Mae gwaredu ger yr wyneb yn cynnig ateb cyflymach, mwy costeffeithiol a chynaliadwy ar gyfer gwaredu'r math hwn o wastraff. Mae gan yr Alban ei pholisi ar wahân ei hun ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (sy'n cynnwys GLG) ger yr wyneb. Mae'r polisi hwn yn dal mewn grym ac nid oedd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn[1]. Mae'r paragraffau dilynol yn yr adran hon, gan gynnwys ymateb y Llywodraeth, yn cyfeirio at bolisi yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn unig.

Gwnaethom hefyd ofyn am safbwyntiau ar fframwaith polisi arfaethedig ar gyfer datblygu cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb ar gyfer GLG llai peryglus yng Nghymru a Lloegr. Roedd hyn yn nodi'r polisi lleoli arfaethedig ar gyfer cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y dylid cael caniatâd cynllunio drwy'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.

[1] Llywodraeth yr Alban. Radioactive Waste Policy. Ar gael yn: https://www.gov.scot/policies/nuclear-energy/radioactive-waste/

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd rhaniad gweddol gyfartal rhwng yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â’r cynnig i ganiatáu gwaredu GLG llai peryglus mewn cyfleusterau ger yr wyneb a’r rhai a oedd yn anghytuno.

Gwnaeth y rhai a oedd yn cytuno â’r cynigion nodi’r rhesymau canlynol dros eu cefnogaeth:

- byddai’r dull yn gymesur â’r risg y mae’r gwastraff yn ei hachosi, gan na fyddai’r ynysu a’r dal a fydd yn bosibl mewn cyfleuster gwaredu daearegol yn ofynnol;
- mae’n gyson â dull seiliedig ar risg o reoli gwastraff;
- byddai’n cynnig opsiynau gwaredu gwastraff mwy hyblyg a chosteffeithiol;
- byddai’n arwain at fanteision amgylcheddol, yn ogystal â diogelu capasiti mewn seilwaith allweddol, gan gynnwys y cyfleuster gwaredu daearegol, a byddai’n lleihau’r angen am gyfleusterau storio interim;
- mae’n cefnogi ymgyrch lanhau’r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) a bydd yn fodd i’r gwaith datgomisiynu gyflymu;
- mae cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb ar gyfer gwaredu GLG wedi bod yn gweithredu’n ddiogel mewn gwledydd eraill ers degawdau lawer, ac mae’r dull yn gyson â chanllawiau rhyngwladol.

Gwnaeth yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â’r cynigion, neu a gynigiodd gefnogaeth amodol, godi’r materion canlynol:

- pryder y byddai gwaredu GLG ger yr wyneb yn anniogel ac yn niweidio pobl a’r amgylchedd;
- dylai fod modd monitro ac adfer gwastraff a gaiff ei roi mewn cyfleuster gwaredu ger yr wyneb (a chyfleuster gwaredu daearegol);
- nid oedd digon o dystiolaeth i ategu’r cynnig i waredu GLG ger yr wyneb a bydd angen dadansoddiad pellach cyn gwneud unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen ag ef;
- mae angen mwy o eglurder ynghylch y mathau o wastraff sy’n addas ar gyfer gwaredu ger yr wyneb;
- nid yw’r diffiniad o waredu ger yr wyneb yn ddigon clir;
- gallai cynigion ar gyfer gwaredu ger yr wyneb gael effaith niweidiol ar y broses leoli bresennol ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol;
- pryderon ynglŷn â’r broses arfaethedig o gynllunio defnydd tir ar gyfer gwaredu ger yr wyneb, effaith negyddol ar y gymuned ac a yw’r polisi’n ddigon clir ynghylch ymgysylltu â’r gymuned a'r manteision;
- dewis safle addas ar gyfer gwaredu ger yr wyneb ac a ddylid ei gyfyngu i dir sy’n eiddo i’r NDA neu safleoedd trwyddedig, neu ei adael yn fwy agored;
- mae’r polisi’n rhy gyfyngol o ran rôl y sector preifat mewn perthynas â darparu cyfleusterau gwaredu a chynnig hyblygrwydd o ran opsiynau gwaredu.

## Ymateb y Llywodraeth (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn unig)

### Diogelwch

Roedd ymatebwyr yn pryderu ynglŷn â'r effaith ar bobl, yn ogystal â'r amgylchedd a bywyd morol. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr a soniodd am ddiogelwch at Ymchwiliad Nirex yn y 1990au, gan ddweud bod y cynigion yn anwybyddu canfyddiadau'r adroddiad ac y byddai'r cynllun ar gyfer gwaredu ger yr wyneb yn golygu y byddai lefelau niweidiol o ymbelydredd o GLG yn cyrraedd dŵr daear ac amgylchedd yr wyneb yn gynt nag a fyddai'n digwydd yn achos gwaredu daearegol dwfn.

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn glir na chaiff yr un cyfleuster gwaredu ger yr wyneb ei adeiladu oni all yr NDA a Gwasanaethau Gwastraff Niwclear (NWS) ddangos drwy achos diogelwch amgylcheddol i'r rheoleiddwyr annibynnol y bydd pobl a'r amgylchedd yn cael eu diogelu.

Mae'r ddogfen 'Near Surface Disposal Facilities on Land for Solid Radioactive Wastes – Guidance on Requirements for Authorisation – February 2009 (GRA)'[2], a gyhoeddwyd ar y cyd gan y rheoleiddwyr amgylcheddol yn y DU, yn esbonio'r gofynion y disgwylir i ddatblygwr eu bodloni pan fydd yn gwneud cais am awdurdodiad i ddatblygu'r cyfleusterau gwaredu hyn er mwyn dangos y bydd ei gyfleuster yn diogelu pobl a'r amgylchedd. Bydd angen iddo ddangos y bydd ei ddull o ddatblygu cyfleuster – gan gynnwys y ffordd y caiff ei ddylunio, ei adeiladu, ei weithredu a'i gau – yn bodloni cyfres o egwyddorion a gofynion a bydd angen iddo nodi hyn mewn achos diogelwch amgylcheddol.

Mae cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb yn defnyddio amrywiaeth o rwystrau er mwyn lleihau'r potensial i ddŵr ddod i gysylltiad â'r gwastraff. Un o'r prif ystyriaethau ar gyfer cyfleuster gwaredu ger yr wyneb fyddai dylunio rhwystrau effeithiol iawn er mwyn diogelu pobl a'r amgylchedd rhag unrhyw halogyddion niweidiol a gaiff eu rhyddhau. Bydd y rhwystrau hyn wedi'u saernïo'n bwrpasol ar gyfer unrhyw leoliad penodol a bydd asesiadau'n ystyried y potensial i brosesau naturiol fel erydu arfordirol darfu ar wastraff.

Mae gwledydd eraill eisoes wedi datblygu cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb yn ddiogel ar gyfer rhai mathau o GLG. Ymhlith y rhain mae cyfleuster Centre de L'Aube yn Ffrainc, sydd wedi bod ar waith ers 1992 ar gyfer gwaredu GLI a GLG byrhoedlog mewn fowtiau arwyneb, a storfa VLJ yn y Ffindir sy'n cymryd GLI a GLG mewn seilos 60-100 metr o dan y ddaear.

Roedd Ymchwiliad Nirex yn y 1990au yn ymwneud â chais cynllunio ar gyfer labordy tanddaearol y bwriedid iddo gasglu mwy o ddata i ategu cais pellach posibl ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol ar gyfer rhestr benodol o wastraff mewn lleoliad penodol. Nid yw hyn yr un fath â'r ardaloedd sy'n destun astudiaethau ar hyn o bryd sy'n ystyried y potensial ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol mewn mannau eraill. Daeth y prosiect i ben ar ôl i Nirex fethu â sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y labordy tanddaearol. Rhoddwyd data daearegol a

[2] EA, SEPA ac NIEA (2009) Near-Surface Disposal Facilities on Land for Solid Radioactive Wastes: Guidance on Requirements for Authorisation. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/near-surface-disposal-facilities-on-land-for-solid-radioactive-wastes

gasglwyd gan Nirex i Arolwg Daearegol Prydain ac maent dal ar gael i brosiectau eraill eu gweld.

## Y gallu i adfer gwastraff o gyfleusterau gwaredu

Diben cyfleuster gwaredu ger yr wyneb (neu gyfleuster gwaredu daearegol) yw gwaredu gwastraff, nid ei storio. Nid oes cynlluniau i ddylunio cyfleuster gwaredu ger yr wyneb na chyfleuster gwaredu daearegol gydag adferadwyedd mewn golwg.

Yn ystod cam gweithredu cyfleuster gwaredu ger yr wyneb a chyfleuster gwaredu daearegol (pan fydd gwastraff yn cael ei dderbyn), gallai gwastraff sydd wedi cael ei roi yn y cyfleusterau gael ei adfer pe bai rheswm cryf dros wneud hynny. Bydd cau'r cyfleusterau hyn yn barhaol ar y cyfle cyntaf posibl ar ôl i'r gweithrediadau ddod i ben yn arwain at fwy o ddiogelwch a sicrwydd. Bydd hefyd yn lleihau'r baich ar genedlaethau'r dyfodol sy'n gysylltiedig â rheoli'r gwastraff drwy leihau'r angen i storio am gyfnodau hir, adeiladu a chynnal a chadw cyfleusterau storio, ac ailbecynnu gwastraff o bosibl.

## Sylfaen dystiolaeth, dadansoddiad o opsiynau a manteision gwaredu ger yr wyneb

Nid syniad newydd yw gwaredu ger yr wyneb. Mae amrywiol gysyniadau o waredu ger yr wyneb eisoes wedi cael eu profi fel llwybrau gwaredu diogel ac addas ar gyfer GLI yn y DU, ac mewn gwledydd tramor, ar gyfer GLI a rhannau o'r rhestr GLG. Mae'r LLWR a Chyfleuster Gwastraff Lefel Isel Dounreay yn gyfleusterau gwaredu ger yr wyneb.

Bydd angen i unrhyw benderfyniad gan yr NDA i fwrw ymlaen â gwaredu GLG ger yr wyneb gael ei ategu gan achos busnes cadarn ac achos diogelwch trwyadl. Mae'r costau cychwynnol a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn geidwadol iawn. Nid ydynt yn cynnwys arbedion posibl yn sgil pecynnu gwastraff lle mae meini prawf derbyn gwastraff i'w waredu ger yr wyneb yn debygol o fod yn wahanol i rai cyfleuster gwaredu daearegol. Hefyd, nid yw arbedion o ganlyniad i glirio'r safle'n gynnar yn cael eu hystyried. Efallai y bydd yr arbedion posibl yn ymddangos yn fach yng nghyd-destun cost ehangach datgomisiynu; fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon yn ymddiheuro am gynigion a fydd yn arwain at arbedion i drethdalwyr y DU.

Mae polisi Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon yn ei gwneud yn ofynnol i'r NDA ystyried opsiynau gwaredu eraill a allai wella ein trefniadau rheoli hirdymor cyffredinol ar gyfer y gwastraff y bwriedir iddo fynd i gyfleuster gwaredu daearegol ar hyn o bryd. Mae'r NDA wedi gwneud cryn dipyn o waith technegol i asesu dichonoldeb gwaredu ger yr wyneb ar gyfer GLG. Roedd hyn yn cynnwys archwilio pedwar cysyniad gwaredu ger yr wyneb gwahanol er mwyn asesu eu haddasrwydd, fel yr amlinellir yn y Papur Sefyllfa Strategol ar Waredu ger yr Wyneb.[3]

[3] Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (2020) Near-Surface Disposal Strategic Position Paper. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/910184/NSD_StrategicPositionPaper_August_2020_FINAL_V2.pdf

Bwriad Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon yw cynnig digon o hyblygrwydd yn y polisi i sicrhau y gall yr NDA ddatblygu cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb yn ôl angen a gwerth am arian. Felly, nid yw'r polisi'n nodi cysyniad a ffefrir, nac yn darparu cynllun na phroses ar gyfer cyflawni yng Nghymru a Lloegr.

### Eglurder ynghylch mathau o wastraff sy'n addas ar gyfer gwaredu ger yr wyneb

Mae categori GLG yn un enfawr sy'n cynnwys amrywiaeth o wahanol fathau o wastraff sydd ag amrywiol briodweddau ffisegol, cemegol a radiolegol. Dim ond is-set o'r rhestr GLG fyddai'r gwastraff a all fod yn addas i'w waredu mewn cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb, a bydd bob amser angen cyfleuster gwaredu daearegol ar gyfer GLG mwy peryglus yn ogystal â GLU, a deunyddiau niwclear a allai droi'n wastraff rywbryd yn y dyfodol.

Yn y polisi terfynol, a gaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn, rydym wedi ychwanegu enghreifftiau o fathau o wastraff a allai fod yn addas. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr. Bydd yr achos diogelwch amgylcheddol penodol ar gyfer pob safle yn pennu meini prawf derbyn gwastraff manwl ar gyfer y cyfleuster gwaredu, sy'n diffinio ac yn cyfyngu'r mathau, y nodweddion a'r meintiau o wastraff y gellir eu gwaredu yn y cyfleuster gwaredu ger yr wyneb hwnnw.

### Diffiniad o waredu ger yr wyneb

Rydym wedi diwygio'r polisi i egluro mai cyfleuster y gellid ei leoli ar neu o dan yr wyneb (hyd at 200 metr, sef isafswm dyfnder cyfleuster gwaredu daearegol) yw cyfleuster gwaredu ger yr wyneb ar gyfer GLG, a gall ddefnyddio strwythurau sydd eisoes yn bodoli.

### Caniatâd Cynllunio

Roedd y safbwyntiau ar y dull cynllunio arfaethedig yn gymysg. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o'r ymatebwyr (25) a wnaeth sylwadau ar gynllunio. Roedd y mwyafrif a wnaeth sylw yn gwrthwynebu'r cynnig i'r penderfyniad ynghylch gwaredu ger yr wyneb gael ei wneud gan yr awdurdodau cynllunio lleol, a dywedodd rhai eu bod yn ffafrio dynodi cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb fel prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.

Dywedodd y rhai a oedd o blaid y llwybr cynllunio arfaethedig y dylai gwaredu ger yr wyneb fod yn ddarostyngedig i'r holl ofynion cynllunio lleol.

Gwnaeth y rhai a oedd yn dadlau yn erbyn y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref fel y llwybr cynllunio priodol ar gyfer cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb y pwyntiau canlynol:

- mae gwaredu ger yr wyneb yn brosiect mawr ac yn gyfleuster cenedlaethol sy'n darparu gwasanaeth i'r genedl gyfan ac felly ni ddylai fod yn destun penderfyniadau gan yr awdurdodau cynllunio lleol;
- dylai gwaredu ger yr wyneb fod yn destun datganiad polisi cenedlaethol a gwaith craffu gan y Senedd. Byddai hefyd yn ffordd briodol o sicrhau bod partïon â diddordeb yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygu meini prawf lleoli a dewis lleoliadau addas;
- mae'r gyfundrefn ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yn rhoi mwy o sicrwydd o ran cyflawni'n llwyddiannus ac yn amserol a mwy o gysondeb â phroses

bresennol y gyfundrefn prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer safleoedd gwastraff peryglus;

- nid oes gan awdurdodau cynllunio lleol yr adnoddau na'r arbenigedd i ddelio â gwaredu ger yr wyneb;
- mae angen ymgysylltu'n briodol â'r gymuned – nid yw'r isafswm statudol o 21 diwrnod o ymgynghori o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn ddigonol.

Barn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yw mai'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yw'r llwybr cynllunio priodol o hyd ar gyfer cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb ar gyfer rhai mathau o GLG llai peryglus yng Nghymru a Lloegr. Er y gallai cyfleuster gwaredu agos i'r wyneb wasanaethu gweddill y DU o bosibl, bydd graddfa'r gwaith adeiladu a'r gwastraff y disgwylir iddo gael ei waredu yn fach. Amcangyfrifir y gallai'r ardal a ddefnyddir ar gyfer gwaredu fod tua 0.01 $km^2$ o faint a chymryd rhwng 14,000 $m^3$ a 21,000 $m^3$ o wastraff erbyn 2040. O gymharu â hynny, gallai'r cyfleuster gwaredu daearegol fesur tua 1 $km^2$ uwchben y ddaear a 10-20 $km^2$ o dan y ddaear, yn dibynnu ar y lleoliad daearegol, a gwaredu amcangyfrif uchaf o 773,000 $m^3$ o wastraff ymbelydrol.

Er y caiff rhai safleoedd gwastraff peryglus eu caniatáu fel prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar hyn yn seiliedig ar faint o'r gwastraff sy'n cael ei waredu.[4] O gymharu â hynny, mae amcangyfrif yr NDA o faint o GLG a allai fod yn addas ac a allai fynd i gyfleuster gwaredu ger yr wyneb erbyn 2040 yn llawer llai. Felly, nid yw Llywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ystyried mai prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yw cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb ar gyfer GLG llai peryglus.

Rydym yn cydnabod y byddai gwneud cyfleuster gwaredu ger yr wyneb yn brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol golygu y gallai'r Senedd graffu ar unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol a wneir. Fodd bynnag, mae'r LLWR yn gyfleuster gwaredu ger yr wyneb sydd eisoes yn bodoli a chafwyd y caniatâd cynllunio diweddaraf ar gyfer y safle gan yr awdurdod lleol drwy'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid defnyddio'r un dull ar gyfer unrhyw gyfleusterau gwaredu ger yr wyneb eraill. Polisi Llywodraeth y DU yw cadw penderfyniadau cynllunio mewn dwylo lleol cyn belled ag y bo modd.

Rydym hefyd yn cydnabod bod pryderon ei bod yn bosibl nad oes gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru a Lloegr yr adnoddau i ystyried cais cynllunio ar gyfer cyfleuster gwaredu ger yr wyneb, a'u bod, yn ogystal â'r sector cynllunio ehangach, yn wynebu heriau difrifol o ran capasiti a galluogrwydd. I fynd i'r afael â hyn, ar 24 Gorffennaf 2023 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymrwymiad i roi £37.5 miliwn yn rhagor o gyllid i mewn i'r system er mwyn clirio ôl-groniadau cynllunio yn Lloegr.

Ar ben hynny, byddai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn annog yr NDA i roi Cytundeb Perfformiad Cynllunio ar waith gyda'r awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru a Lloegr lle mae

[4] DEFRA (2013) National policy statement for hazardous waste: A framework document for planning decisions on nationally significant hazardous waste infrastructure. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/hazardous-waste-national-policy-statement

cyfleuster gwaredu ger yr wyneb yn cael ei gynnig. Mae Cytundebau Perfformiad Cynllunio yn nodi proses effeithlon a thryloyw, gydag amserlenni, camau gweithredu ac adnoddau y cytunwyd arnynt ar gyfer pennu'r prosiect, a chyfleoedd i gymunedau ymgysylltu. Mae Cytundeb Perfformiad Cynllunio yn rhoi disgresiwn i'r awdurdod cynllunio lleol ymgymryd â gwaith ychwanegol i ymgysylltu â'r gymuned, y tu hwnt i'r cyfnod ymgynghori statudol o 21 diwrnod pan gaiff cais ei gyflwyno.

## Effaith ar y gymuned ac ymgysylltu â'r gymuned

Mae Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon yn ymrwymedig i sicrhau bod gan gymunedau lleol lais mewn ardaloedd y mae'r NDA yn credu y gallent fod yn addas ar gyfer gwaredu ger yr wyneb. Ein barn ni yw bod angen hyblygrwydd yn null yr NDA o ymgysylltu â chymunedau sy'n ystyried gwahanol anghenion a dymuniadau cymunedau lleol. Mae pob cymuned yn wahanol ac mae'n annhebygol mai dull 'un ateb sy'n addas i bawb' fydd orau i bob cymuned. Felly, nid ydym yn bwriadu rhoi rhagor o fanylion yn y polisi. Fodd bynnag, bydd yr NDA yn cyhoeddi dogfen sy'n nodi ei ddull cyffredinol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau lleol, gan gynnwys sut y bydd yn gallu ei addasu i ddiwallu anghenion gwahanol gymunedau a datblygiadau.

Mae Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon yn cytuno y dylai'r NDA ddarparu pecyn buddion cymunedol i'r bobl sy'n byw yn ardal leol y safle neu'r safleoedd a ddewisir ganddo, fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer pobl sy'n byw ger cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb, gan gynnwys yr LLWR. Felly, nid ydym yn bwriadu rhoi rhagor o fanylion yn y polisi. Mae'n bwysig teilwra'r pecyn buddion yn unol ag anghenion y gymuned a'i fod yn gymesur ag effaith bosibl cyfleuster gwaredu ger yr wyneb ar y bobl sy'n byw gerllaw. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, lle'r NDA fydd pennu gwerth ariannol y pecyn a gweithio gyda'r gymuned i benderfynu sut y caiff ei weinyddu a'i ddosbarthu yn unol â'i bolisïau economaidd-gymdeithasol presennol ar gyfer cefnogi cymunedau o amgylch safleoedd yr NDA.

## Lleoli

Roedd y sylwadau ar y dull lleoli yn amrywio rhwng y rhai a ddywedodd y dylai opsiynau lleoli gael eu cyfyngu i safleoedd trwyddedig niwclear sydd eisoes yn bodoli, ac eraill a ddywedodd na ddylai opsiynau lleoli gael eu cyfyngu i dir sy'n eiddo i'r NDA, ac y dylai'r polisi ganiatáu i dir nad yw'n eiddo i'r NDA gael ei gynnig. Nododd nifer bach o ymatebwyr y gallai defnyddio tir yr NDA ar gyfer gwaredu ger yr wyneb atal y tir hwnnw rhag cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith adeiladu niwclear newydd. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod y polisi drafft yn dweud y dylai'r NDA ystyried ehangu'r LLWR i gymryd GLG llai peryglus. Nododd nifer bach o ymatebwyr fod angen mwy o arweiniad ar y meini prawf a'r gofynion lleoli.

Mae Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon yn cytuno y gallai cyfyngu opsiynau lleoli ar gyfer gwaredu ger yr wyneb i dir sy'n eiddo i'r NDA atal lleoliadau addas eraill rhag cael eu cynnig. Er ein bod yn rhagweld y bydd yr NDA yn ystyried ei dir ei hun yn bennaf, nid ydym am atal posibiliadau eraill yng Nghymru a Lloegr rhag cael eu hystyried. Rydym wedi diwygio'r polisi terfynol i adlewyrchu hyn. Nid ydym yn cytuno y dylai'r

broses o leoli cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb gael ei chyfyngu i safleoedd trwyddedig niwclear sydd eisoes yn bodoli.

Gan ei fod yn gyfleuster gwaredu ger yr wyneb sydd eisoes yn bodoli ar gyfer GLI, mae Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon yn credu ei bod yn iawn annog yr NDA i archwilio'r posibilrwydd o optimeiddio'r LLWR i gymryd GLG llai peryglus. Mae'r safle wedi'i nodi yn y polisi fel un opsiwn posibl. Hoffai Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon nodi'n glir nad yw'r un safle yng Nghymru na Lloegr wedi cael ei ddewis. Byddai unrhyw safle posibl yn destun achos diogelwch amgylcheddol, gwaith ymgysylltu â'r gymuned a chaniatâd cynllunio.

Mae Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon yn cytuno y dylai'r NDA ddatblygu meini prawf lleoli clir ar gyfer unrhyw gyfleuster gwaredu ger yr wyneb posibl. Rydym yn wedi diwygio'r polisi terfynol i nodi'n glir y bydd yr NDA yn datblygu meini prawf lleoli cadarn, yn seiliedig ar asesiadau technegol, diogelwch ac addasrwydd, yn unol â fframwaith gwerth yr NDA[5], gyda chymorth rheoleiddwyr a chyrff cynghori allweddol.

## Rôl y sector preifat mewn gwaredu gwastraff a hyblygrwydd mewn opsiynau gwaredu

Er mai'r NDA yn gyfrifol am lanhau safleoedd niwclear y DU, mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cytuno bod rôl i'r sector preifat o ran rhoi atebion rheoli gwastraff ar waith, gan gynnwys gwaredu. Mae gweithredwyr masnachol, ochr yn ochr â safleoedd tirlenwi a ganiateir yr NDA ei hun, eisoes yn darparu capasiti ar gyfer gwaredu cyfeintiau bach a mawr o wastraff lefel isel iawn (GLII) a GLI is ei actifedd.

Rydym o blaid ehangu'r gadwyn gyflenwi ac rydym yn annog yr NDA i archwilio cynigion gweithredwyr masnachol ar gyfer atebion rheoli gwastraff. Rydym wedi diwygio'r polisi i wneud hyn yn glir.

Mae Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon yn cytuno y gellid dehongli bod y polisi yr ymgynghorir arno yn atal yr NDA rhag cynnig technolegau gwaredu amgen y gellid eu datblygu yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid oes technolegau gwaredu amgen credadwy wedi dod i'r amlwg a fyddai'n darparu ar gyfer yr holl gategorïau gwastraff yn y rhestr o wastraff i'w waredu, ac mae'n amlwg y bydd angen cyfleuster gwaredu daearegol o hyd ar gyfer rhai mathau o wastraff ymbelydrol. Fodd bynnag, gallai opsiynau amgen ymarferol yn lle cyfleuster gwaredu daearegol ddod i'r amlwg ar gyfer rhannau o'r rhestr, ac mae'r NDA ac NWS yn parhau i adolygu'r rhain, gan gynnwys dysgu o raglenni tramor ac ymgysylltu â nhw. Rydym yn cytuno y dylai'r NDA (yn uniongyrchol neu gyda'r gadwyn gyflenwi) allu cynnig technolegau gwaredu amgen ar gyfer rhannau o'r rhestr os dangosir y byddant yn ymarferol yn y dyfodol. Byddai unrhyw gynigion yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn gwneud penderfyniad ar eu defnydd, a byddent yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol hefyd. Rydym wedi diwygio'r polisi terfynol i wneud hyn yn glir.

[5] NDA (2021). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/nda-value-framework-how-we-make-decisions

## Effaith ar y cyfleuster gwaredu daearegol

Hoffai Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon nodi'n glir nad yw'r cynnig ar gyfer cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb yn effeithio ar yr achos o blaid cyfleuster gwaredu daearegol, nac amseriad cyfleuster o'r fath. Er y gellir gwaredu rhywfaint o wastraff ymbelydrol llai peryglus yn ddiogel mewn cyfleusterau gwaredu ger yr wyneb, bydd bob amser angen cyfleuster gwaredu daearegol er mwyn gwaredu'r gwastraff ymbelydrol mwyaf peryglus.

## Polisi Gweithio gyda Chymunedau

Nid oedd priod bolisïau Gweithio gyda Chymunedau Cymru a Lloegr yn rhan o'r ymgynghoriad hwn ac mae'r broses yn dal fel y'i nodwyd yn wreiddiol yn y papurau polisi: *Implementing geological disposal – working with communities: long term management of higher activity radioactive waste*,[6] a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau.[7] Fodd bynnag, rydym wedi gwneud rhai mân newidiadau drafftio, gan gynnwys adlewyrchu'r ffaith bod rheoli gwastraff ymbelydrol wedi cael ei ymgorffori o fewn Gwasanaethau Gwastraff Niwclear (NWS) a chael gwared ar y term gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd er mwyn sicrhau cysondeb â phenodau eraill yn y polisi.

Fel y nodir ym mharagraff 5.13 yr ymgynghoriad, rydym wedi diwygio paragraffau 55-57 yn y polisi Gweithio gyda Chymunedau ar gyfer Lloegr a pharagraffau 55-57 yn y polisi Gweithio gyda Chymunedau ar gyfer Cymru i adlewyrchu uchelgais Llywodraeth y DU i gynyddu'r defnydd o ynni niwclear hyd at 24 GW.

[6] DESNZ (2018). Implementing geological disposal – working with communities: long term management of higher activity radioactive waste. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/implementing-geological-disposal-working-with-communities-long-term-management-of-higher-activity-radioactive-waste

[7] Llywodraeth Cymru (2019). Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/gwaredu-gwastraff-ymbelydrol-uwch-ei-actifedd-yn-ddaearegol-canllawiau-i-gymunedau.pdf

# Gwaredu ar y safle

| **A ydych yn cytuno y dylai polisi Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig hybu'r defnydd o waredu gwastraff halogedig ymbelydrol ar y safle o ddatgomisiynu safleoedd niwclear, yn amodol ar drwyddedau amgylcheddol? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
|---|---|
| Cytuno | 61 |
| Anghytuno | 46 |
| Anhysbys | 20 |
| Cyfanswm | 127 |

## Cynnig yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y dylai Llywodraeth y DU hybu'r defnydd o waredu ar y safle, yn amodol ar drwyddedau amgylcheddol.

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, er bod rhai ymatebwyr yn anghytuno y dylid 'hybu' gwaredu ar y safle. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cytuno bod gwaredu ar y safle:

- yn gallu bod yn fwy costeffeithiol ac yn fwy cynaliadwy;
- yn osgoi cludo gwastraff yn ddiangen;
- yn gyson ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth y DU ar y camau datgomisiynu terfynol yr ymgynghorwyd arnynt yn 2018.[8]

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch:

- pryd y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwaredu ar y safle;
- effaith gwaredu ar y safle ar gyflwr terfynol safle;
- sut y caiff gwaredu ar y safle ei reoleiddio;
- a fyddai buddion ar gael i gymunedau sy'n byw ger hen safleoedd niwclear lle mae gwaredu ar y safle yn digwydd.

Codwyd y pryderon canlynol gan yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cefnogi'r cynnig:

[8] Llywodraeth y DU. The Regulation of Nuclear Sites in the in the final stages of decommissioning and clean-up. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/the-regulation-of-nuclear-sites-in-the-final-stages-of-decommissioning-and-clean-up

- gallai caniatáu gwaredu ar y safle arwain at ostyngiad mewn safonau diogelwch a diogelu'r amgylchedd.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cytuno nad yw'n briodol hybu gwaredu ar y safle ac na ddylid ei hybu uwchlaw unrhyw ddull gwaredu arall. Dylid ystyried gwaredu ar y safle fel opsiwn ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol ar safleoedd niwclear yn ystod camau olaf datgomisiynu pan fydd peryglon radiolegol a risgiau i'r amgylchedd ac iechyd pobl yn isel.

### Cynllunio

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi egluro yn y polisi terfynol y bydd angen caniatâd cynllunio ym mhob achos pan gynigir cyfleuster gwaredu wedi'i saernïo, neu pan fyddai cyfleuster gwaredu arfaethedig yn newid y diben y defnyddir y tir ar ei gyfer.

Mae'r Adran Diogelu Ffynonellau Ynni a Sero Net wedi datblygu canllawiau i ddefnyddwyr ar waredu GLI a GLII ar safleoedd niwclear a hen safleoedd niwclear yn Lloegr. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys argymhellion i weithredwyr a chynllunwyr. Bydd y canllaw hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynlluniau ar gyfer canllawiau penodol ar waredu o'r fath yng Nghymru.

### Effeithiau gwaredu ar y safle ar gyflwr terfynol safleoedd

Bydd cymunedau lleol yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer cyflwr terfynol safleoedd yr NDA fel y nodir o dan reoliadau amgylcheddol a rheoliadau cynllunio. Darperir ar gyfer gofynion o ran mesurau diogelu ac ymgysylltu ystyrlon mewn rheoliadau amgylcheddol a rheoliadau cynllunio er mwyn sicrhau y bydd cymunedau lleol yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch cyflwr terfynol safleoedd. Caiff cyflwr terfynol amcanestynedig safleoedd ei ddiweddaru drwy broses iteraidd wrth i'r gwaith datgomisiynu fynd rhagddo ac mae'n seiliedig ar y cyngor gwyddonol, y cyngor polisi a'r cyngor rheoleiddiol ar y pryd er mwyn sicrhau mai'r cyflwr terfynol y cytunwyd arno yw'r opsiwn gorau ar gyfer diogelwch gweithwyr, yr amgylchedd a phobl leol.

### Diogelwch a diogelu'r amgylchedd

Ni fydd gwaredu ar y safle yn arwain ostwng safonau o ran diogelwch na diogelu'r amgylchedd. Fe'i caniateir eisoes o dan reoliadau amgylcheddol y DU os gall y gweithredwr ddangos mai dyma'r opsiwn gorau ar gyfer safle penodol. Dim ond os byddant yn fodlon y caiff pobl a'r amgylchedd eu diogelu, ac y bydd gwaith monitro priodol yn cael ei wneud, y bydd yr asiantaethau amgylcheddol yn caniatáu gwaredu. Er mwyn bod yn glir, mae gwaredu ar y safle yn wahanol iawn i gladdedigaeth, lle y caiff gwastraff mwy peryglus ei selio yn ei le. Mae'r gwastraff rydym yn ei ystyried yma yn achosi perygl radiolegol isel iawn.

Bydd safleoedd lle mae gwaredu ar y safle'n digwydd yn parhau i gael eu rheoleiddio a'u monitro nes y bydd y safle'n cyrraedd y fath gyflwr boddhaol fel y gellir ei ryddhau rhag

rheoleiddio. Mae “Management of Radioactive waste from decommissioning of nuclear sites: Guidance on Requirements for Release from Radioactive Substances Regulation”[9] yn nodi’r gofynion ar gyfer rhyddhau rhag rheoleiddio amgylcheddol. Er mwyn i safle gael ei ryddhau rhag rheoleiddio amgylcheddol, rhaid i weithredwr ddangos ei fod wedi cwblhau’r holl waith sy’n ymwneud â sylweddau ymbelydrol a dangos drwy achos diogelwch amgylcheddol ar gyfer y safle cyfan ei fod wedi cyrraedd yr holl safonau diogelwch amgylcheddol.

## Budd cymunedol

Nid ydym yn cytuno y byddai budd cymunedol yn gymesur â’r effeithiau bach iawn ar gymunedau lleol a achosir gan bresenoldeb gwaredu ar y safle ar hen safleoedd niwclear. Mae’r risg radiolegol a achosir gan waredu gwastraff lefel isel a gwastraff lefel isel iawn ar y safle yn fach iawn. Mae effeithiau a pheryglon gwaredu ar y safle yn llawer is nag effeithiau a pheryglon cyfleusterau gwaredu a weithredir yn fasnachol ar gyfer gwastraff ymbelydrol, oherwydd y rhestrau llawer llai o radioisotopau a fydd yn bresennol mewn cyfleusterau gwaredu ar y safle.

Bydd gwaredu ar y safle yn cyfrannu at ryddhau rhannau o safleoedd at ddefnydd y gymuned yn gynharach, ac yn lleihau llif traffig sy’n cludo deunydd ar ac oddi ar y safle – gan na fydd angen symud llawer iawn o wastraff sydd wedi’i halogi’n ysgafn o’r safle i’w waredu na dod â deunydd newydd i’r safle i lenwi gwagleoedd. Rydym yn ystyried bod lleihau traffig cerbydau nwyddau trwm, allyriadau cerbydau, a sŵn a llwch cysylltiedig (yn sgil torri gwastraff megis concrit er mwyn paratoi ar gyfer gwaredu) yn lliniaru effeithiau datgomisiynu ar gymunedau lleol yn sylweddol.

[9] Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru (2018). Ar gael yn: https://www.sepa.org.uk/media/365893/2018-07-17-grr-publication-v1-0.pdf

# Datgomisiynu niwclear

| | |
|---|---|
| **A oes unrhyw welliannau pellach y gallem eu hystyried mewn perthynas â'r diweddariad arfaethedig o'r polisi datgomisiynu a glanhau niwclear? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
| Cyfanswm | 122 |
| **Mae'r polisi datgomisiynu niwclear a nodir uchod yn cynnwys polisïau presennol a pholisïau a fyddai'n cael eu gweithredu pe bai'r cynigion yn Rhan I yn cael eu cymeradwyo. A gytunwch fod y datganiad polisi yn cynnwys yr holl bolisïau perthnasol ar ddatgomisiynu niwclear?** | |
| Cytuno | 22 |
| Anghytuno | 17 |
| Anhysbys | 43 |
| Cyfanswm | 82 |
| **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r bennod hon ar ddatgomisiynu niwclear? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
| Cyfanswm | 79 |

## Cynnig yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi cynigion ar gyfer polisi wedi'i ddiweddaru ar ddatgomisiynu niwclear. Mae'n egluro safbwynt y DU ar arferion cynaliadwy, ailddefnyddio tir, ymchwil a datblygu, strategaethau datgomisiynu derbyniol, a chydweithio ar draws sectorau. Mae'r polisi hefyd yn nodi'n glir y dylai unrhyw gyfleuster newydd a gwmpesir gan y polisi wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys cyfleusterau trin a storio, gael ei ddylunio, ei adeiladu a'i weithredu mewn ffordd sy'n lleihau cymhlethdod gwaith datgomisiynu dilynol a gweithrediadau rheoli gwastraff cysylltiedig i'r eithaf. Mae rhai agweddau ar bolisi datgomisiynu cyfleusterau niwclear yn faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae polisi ar wastraff sy'n deillio o ddatgomisiynu yn fater datganoledig. Yn ogystal â hynny, ymgynghorir â Gweinidogion yr Alban ar faterion sy'n ymwneud â'r safleoedd niwclear yn yr Alban sy'n gyfrifoldeb i'r NDA ac, ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, nhw sy'n cymeradwyo strategaethau a chynlluniau busnes yr NDA mewn perthynas â'r Alban.

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r diweddariad a gwnaethant gyflwyno nifer o awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r bennod ar ddatgomisiynu, fel a ganlyn:

Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y dylai fod mwy o fanylder neu fwy o bwyslais ar y canlynol:

- ystyriaethau o ran cynaliadwyedd, yr amgylchedd a'r hinsawdd mewn strategaethau a chynlluniau datgomisiynu;
- pwysigrwydd rheoli asedau;
- pwysigrwydd cydweithio â'r rheoleiddwyr a rhwng safleoedd niwclear;
- pwysigrwydd ymchwil a datblygu ar gyfer datgomisiynu niwclear;
- ymgysylltu â'r gymuned ar brosiectau datgomisiynu niwclear, yn enwedig ar gyflwr terfynol y safle a'r ffyrdd y caiff ei ddefnyddio yn y dyfodol;
- y potensial ar gyfer defnydd dros dro o safleoedd yn hytrach na chanolbwyntio ar y defnydd nesaf o'r safle yn unig ar ôl cwblhau'r gwaith datgomisiynu;
- ymgysylltu rhyngwladol ac allforio arbenigedd y DU ym maes datgomisiynu niwclear i wledydd tramor.

Gofynnodd nifer bach o ymatebwyr am eglurder ynghylch:

- y gwahaniaeth rhwng strategaethau, cynlluniau a rhaglenni datgomisiynu;
- defnydd tir ar gyfer ynni niwclear newydd ar ac o amgylch safleoedd niwclear sydd eisoes yn bodoli;
- sut y bydd y polisi'n gweithio ochr yn ochr â'r Rhaglen Ddatgomisiynu a Ariennir.

Gwnaeth nifer bach o ymatebwyr hefyd awgrymu'r canlynol:

- dylai'r polisi ymdrin â'r holl gyfleusterau sy'n defnyddio sylweddau ymbelydrol ac nid dim ond cyfleusterau niwclear, a dylai hefyd ymdrin â'r holl gyfleusterau ymasiad yn y dyfodol yn hytrach na dim ond datgomisiynu'r cyfleuster JET presennol;
- gellid gwella'r polisi drwy gynnwys mesurau i symleiddio'r broses o rannu eiddo deallusol sy'n eiddo i'r NDA;
- mae angen lefelau uwch o ddiogelu'r amgylchedd.

# Ymateb y Llywodraeth

## Cynaliadwyedd a newid hinsawdd mewn strategaethau a chynlluniau datgomisiynu

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cytuno y gellid gwella'r polisi datgomisiynu drwy gynnwys ystyriaethau o ran cynaliadwyedd, yr amgylchedd a'r hinsawdd yn benodol yn yr adran sy'n ymdrin â strategaethau a chynlluniau datgomisiynu. Rydym wedi ychwanegu cynaliadwyedd economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol a newid hinsawdd at y polisi terfynol, fel ffactorau penodol i'w hystyried wrth ddatblygu strategaethau datgomisiynu.

## Rheoli asedau

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig o'r farn bod rheoli asedau yn agwedd bwysig ar y broses ddatgomisiynu. Yn ogystal â chyfeirio at bwysigrwydd rheoli asedau i

ddatgomisiynu, rydym hefyd bellach wedi cynnwys cyfeiriad penodol at reoli asedau arloesi, yn ogystal ag integreiddio rheoli asedau a rheoli gwastraff.

## Cydweithio â rheoleiddwyr

Mae Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig yn cytuno bod cydberthnasau gwaith da rhwng cyrff rheoleiddio a’r holl weithredwyr safleoedd niwclear yn bwysig ar gyfer datgomisiynu amserol a diogel ac maent wedi gwneud newidiadau i’r polisi terfynol er mwyn adlewyrchu’r awgrym hwn.

## Ymchwil a datblygu ym maes datgomisiynu

Mae'r polisi datgomisiynu niwclear yn annog mynd ar drywydd dulliau arloesol o ddatgomisiynu a glanhau, wedi'u hategu gan weithgareddau ymchwil mewn labordai a phrifysgolion cenedlaethol. Mae gwneud gwaith ymchwil a datblygu hefyd yn ffactor allweddol i’w ystyried mewn strategaethau datgomisiynu sy’n ofynnol o dan y polisi.

Mae Grŵp yr NDA yn gwario tua £20m y flwyddyn ar ymchwil a datblygu i ategu ei genhadaeth i ddatgomisiynu a glanhau safleoedd niwclear cynharaf y DU. Mae Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig wedi nodi eu disgwyliad yn y polisi y dylai’r NDA barhau i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu er mwyn mynd i’r afael â’r heriau sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff ymbelydrol.

## Ymgysylltu â’r gymuned ar gyflyrau terfynol safleoedd a'r ffyrdd y cânt eu defnyddio yn y dyfodol

Gofynnodd ambell ymatebydd am fwy o ymgysylltu â’r gymuned ynghylch agweddau ar brosiectau datgomisiynu niwclear, yn enwedig o ran penderfynu ar gyflwr terfynol safleoedd niwclear a’r ffyrdd y cânt eu defnyddio yn y dyfodol. Hefyd, awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y gellid gwella’r polisi datgomisiynu a glanhau drwy gynnwys gwarantau cyfreithiol y bydd cymunedau’n cael eu cynnwys.

Fel y nodir yn ein polisi, mae Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig yn disgwyl i weithredwyr greu Cynlluniau Datgomisiynu sy’n unigryw i bob safle niwclear. Mae’r polisi’n datgan yn glir ein bod yn disgwyl i’r cynlluniau hyn ystyried sut y caiff y safle ei ddefnyddio nesaf, gan gynnwys ailddefnyddio safleoedd mewn ffordd fuddiol cyn gynted â phosibl, gan ystyried ffactorau lleol a dymuniadau’r gymuned leol. Mae Strategaeth yr NDA hefyd yn cydnabod y gallai cyflwr terfynol safleoedd effeithio ar y gymuned leol a chynlluniau datblygu awdurdodau lleol, er enghraifft o ran cyflogaeth a chadw sgiliau, ac felly bydd yn parhau i weithio’n agos gyda chymunedau ac awdurdodau lleol ar draws yr holl safleoedd y mae’n gyfrifol amdanynt.

Nid yw Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig yn bwriadu cyflwyno rhagor o warantau cyfreithiol. Mae eisoes yn ofynnol i weithredwyr ymgynghori ag awdurdodau lleol a chymunedau lleol o dan reoliadau cynllunio a rheoliadau amgylcheddol.

Rydym eisoes yn gwybod bod rhai cyfleusterau a safleoedd yn y DU yn cyflwyno heriau datgomisiynu sylweddol, cymhleth a newydd sbon. Wrth i gyd-ddealltwriaeth o’r heriau hyn ddatblygu, mae’n bosibl y bydd yr NDA yn dymuno ystyried cyfres ehangach o opsiynau ar gyfer cyflwr terfynol safleoedd. Byddai unrhyw gynigion o’r fath gan yr NDA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

## Defnydd interim o safleoedd

Mae Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig yn cytuno y dylid ystyried defnydd interim buddiol o safleoedd pan fydd cyfnod gohirio yn rhan o’r cynllun datgomisiynu cyffredinol ar gyfer safle, ac rydym wedi diwygio’r polisi yn unol â hynny.

## Cydweithio rhyngwladol

Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y dylai’r polisi ymdrin ag allforio arbenigedd y DU ym maes datgomisiynu niwclear i wledydd tramor.

Mae Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig yn cydnabod bod y farchnad datgomisiynu niwclear yn tyfu’n fyd-eang. Bydd yr NDA yn parhau i ddefnyddio ei brofiad a’i gydberthnasau i wella enw da diwydiant niwclear y DU. Bydd yn arddangos y sgiliau a’r technolegau yng nghadwyn gyflenwi’r DU, gan eu cefnogi i gyrraedd marchnadoedd rhyngwladol. Lle y bo’n briodol, caiff gwybodaeth sy’n eiddo i’r NDA ei rhannu er mwyn cefnogi’r gweithgareddau hyn.

## Defnydd tir ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd ar ac o amgylch safleoedd niwclear sydd eisoes yn bodoli

Gofynnodd nifer bach o ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch a fyddai tir cyhoeddus ar ac o amgylch safleoedd datgomisiynu niwclear yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ynni niwclear newydd fel rhan o uchelgais Llywodraeth y DU i adeiladu 24GW o ynni niwclear newydd erbyn 2050.

Bydd yn cymryd degawdau lawer i ddatgomisiynu rhai safleoedd niwclear, a gall yr hyn sy’n cael ei ystyried yn gyflwr terfynol sydd wedi’i optimeiddio newid dros amser. Felly, nid yw’r polisi’n gwneud unrhyw ymgais i bennu sut y dylai safleoedd penodol gael eu defnyddio yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae’n cydnabod gwerth tir cyhoeddus fel safle posibl ar gyfer seilwaith cenedlaethol yn y dyfodol. Ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar ei dull gweithredu ar gyfer datganiad polisi cenedlaethol diwygiedig ar ynni niwclear newydd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys lleoli, ym mis Ionawr 2024.

## Datgomisiynu cyfleusterau anniwclear gan gynnwys ymasiad

Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr, gan fod y polisi datgomisiynu’n cwmpasu'r cyfleuster ymasiad JET, y dylid ei ymestyn i gynnwys pob cyfleuster ymasiad yn y dyfodol. Ar ben hynny, awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y dylai’r bennod ar y polisi datgomisiynu gynnwys datganiadau polisi ar ddatgomisiynu’r holl gyfleusterau sy’n defnyddio sylweddau ymbelydrol.

Yn 2021, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar ddyfodol polisi a rheoleiddio ym maes ymasiad yn 'Towards fusion energy: proposals for a regulatory framework'[10]. Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, daeth Llywodraeth y DU i'r casgliad bod y fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer ymasiad yn ddigonol i gynnal safonau diogelwch mewn ffordd gymesur ar gyfer unrhyw gyfleusterau ymasiad yn y dyfodol. Ym marn llywodraeth y DU, gan fod y sector ymasiad yn dal i ddatblygu, mae'n rhy gynnar i ddatblygu polisi ar ddatgomisiynu cyfleusterau ymasiad. Fodd bynnag, bydd y llywodraeth yn parhau i ystyried yr achos dros hyn wrth i'r sector ymasiad barhau i gasglu tystiolaeth ac wrth i'r dechnoleg aeddfedu. Y cyfleuster JET fydd y cyfleuster ymasiad cyntaf i gael ei ddatgomisiynu yn y DU, a bydd y gwersi a ddysgir o hyn yn llywio unrhyw bolisi a chanllawiau yn y dyfodol ar ddatgomisiynu cyfleusterau ymasiad yn y dyfodol.

Nid yw Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn credu ei bod yn gymesur nac yn angenrheidiol datblygu polisïau datgomisiynu penodol ar gyfer yr holl wahanol sectorau anniwclear sy'n defnyddio sylweddau ymbelydrol. Ceir gwahaniaeth enfawr rhwng maint y dasg ddatgomisiynu sy'n wynebu'r sector niwclear a'r safleoedd mewn sectorau eraill fel ysbytai a chyfleusterau ymchwil sy'n defnyddio llawer llai o sylweddau ymbelydrol.

## Diogelu'r amgylchedd a datgomisiynu

Mae fframwaith deddfwriaethol y DU sy'n ymdrin â diogelwch radiolegol i bobl a'r amgylchedd yn cyd-fynd â safonau uchel yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol. Mae'r safonau hyn yn seiliedig ar argymhellion gan y Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelwch Radiolegol – corff cynghori annibynnol sy'n defnyddio arbenigedd gwyddonol o bob cwr o'r byd.

[10] Llywodraeth y DU (2021). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/towards-fusion-energy-proposals-for-a-regulatory-framework

# Mewnforio ac allforio sylweddau ymbelydrol

| **A ydych chi'n meddwl bod y bennod hon ar fewnforio ac allforio sylweddau ymbelydrol yn adlewyrchu'n gywir y polisi, yr arfer a'r fframwaith rheoleiddio presennol? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
|---|---|
| Cytuno | 16 |
| Anghytuno | 13 |
| Anhysbys | 48 |
| Cyfanswm | 77 |
| **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut i wella'r bennod hon ar fewnforio ac allforio sylweddau ymbelydrol? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
| Cyfanswm | 72 |

## Cynnig yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi datganiad polisi drafft a oedd yn cydgrynhoi arferion a rheoliadau presennol ar fewnforio ac allforio sylweddau ymbelydrol. Mae polisi ar fewnforio ac allforio deunyddiau a gwastraff ymbelydrol yn fater a gedwir yn ôl, ond mae rhoi'r polisi hwnnw ar waith yn fater datganoledig.

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y datganiadau polisi yn adlewyrchu'r rheoliadau a'r arferion presennol yn gywir. Gofynnodd y canlynol am ragor o eglurder:

- rhai ymatebwyr ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd pan gaiff sylwedd ei fewnforio fel deunydd ond ei ddatgan fel gwastraff yn nes ymlaen;
- ambell ymatebydd a nododd fod achosion wedi bod lle y cafodd y fframwaith rheoleiddio ar fewnforio/allforio yn yr Alban a Lloegr ei ddehongli'n wahanol o ran p'un a yw gwrthrychau penodol yn cael eu hystyried yn ddeunydd ymbelydrol neu'n wastraff ymbelydrol.
- ambell ymatebydd ynghylch p'un a yw'r datganiad polisi yn berthnasol i bob math o wastraff ymbelydrol neu ddim ond gwastraff solet.

Codwyd y pryderon canlynol gan rai ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r datganiad polisi:

- ni chaniateir allforio na mewnforio unrhyw wastraff a gynhyrchir a dylid ymdrin ag ef yn y wlad wreiddiol;
- ni ddylai gwastraff gwledydd eraill gael ei fewnforio i'r DU gan fod delio â gwastraff y DU eisoes yn her.

# Ymateb y Llywodraeth

Mae sylwedd y polisi yn dal fel y’i drafftiwyd yn yr ymgynghoriad. Ei nod yw sicrhau bod gan y DU fynediad at ddeunyddiau ymbelydrol na chânt eu cynhyrchu na’u gweithgynhyrchu yn y DU, ond sy’n angenrheidiol ar gyfer diwydiant, ymchwil a gofal iechyd yn y DU. Mae’r polisi hefyd yn ceisio galluogi cynhyrchwyr gwastraff yn y DU i ddefnyddio’r dulliau mwyaf effeithlon a phriodol o reoli gwastraff ymbelydrol (e.e. lle mae meintiau’n rhy fach i atebion cenedlaethol fod yn gosteffeithiol neu’n gynaliadwy).

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau ac ychwanegiadau drafftio bach i’r datganiad polisi terfynol er mwyn egluro’r pwyntiau a wneir uchod a rolau’r priod reoleiddwyr. Bydd y rheoleiddwyr yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch cynigion y gallent eu cael ar gyfer mewnforio neu allforio sylweddau ymbelydrol os bydd y llwyth yn gorffen neu'n cychwyn ei daith yn eu hawdurdodaeth. Pan fydd cynigion yn cynnwys un neu fwy o rannau o’r DU, er enghraifft gwastraff yn cael ei fewnforio mewn un rhan ac yna'n cael ei drin a'i waredu mewn rhan arall, bydd y rheoleiddwyr perthnasol yn cydweithredu er mwyn gwireddu nodau’r polisi.

Mae’r datganiad polisi hefyd wedi cael ei ddiwygio i egluro ei fod yn cynnwys pob math o wastraff ymbelydrol.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu datblygu canllawiau a fydd yn nodi sut y dylai’r rheoleiddwyr roi’r polisi hwn ar waith.

# Rheoli deunyddiau niwclear a thanwydd a ddisbyddwyd

| | |
|---|---|
| **A ydych yn cytuno â'n diweddariadau arfaethedig i'r datganiad polisi ar reoli gweddillion tanwydd? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
| Cytuno | 43 |
| Anghytuno | 41 |
| Anhysbys | 38 |
| Cyfanswm | 122 |
| **A ydych yn cytuno â'n datganiad polisi arfaethedig ar reoli wraniwm? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
| Cytuno | 38 |
| Anghytuno | 34 |
| Anhysbys | 47 |
| Cyfanswm | 119 |
| **A ydych chi'n cytuno bod y polisi'n cynnwys popeth y byddech chi'n ei ddisgwyl o ran rheoli tanwydd wedi'i ddisbyddu ac wraniwm? Nid ydym yn ceisio barn ar bolisi rheoli plwtoniwm ar hyn o bryd.** | |
| Cytuno | 17 |
| Anghytuno | 32 |
| Anhysbys | 31 |
| Cyfanswm | 80 |
| **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r datganiadau polisi ar reoli tanwydd wedi'i ddisbyddu ac wraniwm? Rhowch y rhesymeg y tu ôl i'ch ymateb.** | |
| Cyfanswm | 78 |

## Cynnig yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi fframwaith polisi wedi'i gydgrynhoi a'i ddiweddaru sy'n cynnwys polisïau ar reoli tanwydd a ddisbyddwyd, wraniwm a phlwtoniwm. Roedd hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer polisi wedi'i ddiweddaru ar reoli tanwydd a ddisbyddwyd er mwyn adlewyrchu newidiadau diweddar a datganiad polisi newydd ar reoli wraniwm. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i'r polisi presennol ar blwtoniwm ac ni cheisiwyd barn ar y polisi plwtoniwm yn yr ymgynghoriad. Mae polisi sy'n ymwneud â rheoli deunyddiau niwclear yn fater a gedwir yn ôl.

# Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o’r ymatebion o sylwedd yn gefnogol. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi’r cynnig yn gwneud hynny am y rhesymau canlynol:

- roedd yr ymatebwyr yn croesawu’r eglurder a gafwyd gan y polisi wedi’i ddiweddaru a'i gydgrynhoi ar ddisgwyliadau Llywodraeth y DU ar gyfer rheoli deunyddiau niwclear a thanwydd a ddisbyddwyd;
- roedd yr ymatebwyr yn credu bod y polisi’n ddigon pragmatig ac roeddent yn croesawu’r hyblygrwydd a’r cydbwysedd a gynigir gan y polisi.

Cododd nifer o ymatebwyr y materion a’r pryderon canlynol:

- credai ambell un y dylid cael polisi cadarnach sy’n ffafrio ailddefnyddio tanwydd a ddisbyddwyd a deunyddiau niwclear a chylch tanwydd caeedig;
- roedd eraill am weld polisi cadarnach yn erbyn ailddefnyddio tanwydd a ddisbyddwyd a deunyddiau niwclear;
- awgrymodd nifer bach y dylai ailbrosesu fod yn ymdrech gan y wladwriaeth, yn hytrach na bod perchennog y tanwydd a ddisbyddwyd neu’r farchnad yn penderfynu a ddylid ailbrosesu;
- roedd rhai’n pryderu y byddai ailbrosesu yn cynyddu gollyngiadau i'r amgylchedd, yn cynyddu'r dos i weithwyr ac yn cynhyrchu gwastraff eilaidd sy'n anodd ei reoli;
- cododd nifer bach bryderon bod ailbrosesu yn anghydnaws ag amcanion y DU o ran atal twf arfogaeth niwclear;
- awgrymodd nifer bach y dylai fod mwy o fanylder ynglŷn ag opsiynau storio a gwaredu interim ar gyfer tanwydd a ddisbyddwyd;
- awgrymodd rhai y dylid gorfodi gwaredu tanwydd a ddisbyddwyd o fewn amserlen benodol;
- cododd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn ag ailddefnyddio wraniwm at ddibenion milwrol;
- gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch polisi’r llywodraeth ar thoriwm.

# Ymateb y Llywodraeth

## Rheoli tanwydd a ddisbyddwyd, deunyddiau niwclear ac ailbrosesu

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnal y safbwynt polisi ar reoli tanwydd a ddisbyddwyd a deunyddiau niwclear fel y'i nodir yn yr ymgynghoriad.

Oherwydd yr amserlenni hir sy’n gysylltiedig â rheoli tanwydd a ddisbyddwyd a’r ansicrwydd cysylltiedig, ynghyd â natur amrywiol y rhestr wastraff yn y DU, mae angen dull hyblyg o ddarparu ar gyfer gwahanol opsiynau rheoli. Dylai perchennog y tanwydd a ddisbyddwyd barhau i fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch rheoli tanwydd a ddisbyddwyd, yn

amodol ar fodloni'r holl ofynion rheoliadol angenrheidiol. Ni fyddai'n briodol i Lywodraeth y DU orfodi gwaredu tanwydd a ddisbyddwyd o fewn amserlen benodol.

Nid oes ailbrosesu ar raddfa diwydiannol yn y DU ar hyn o bryd. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cael yr un cynnig credadwy gan ddiwydiant i ailddechrau ailbrosesu ac nid yw'n bwriadu mynd ar drywydd ailbrosesu tanwydd niwclear a ddisbyddwyd ar raddfa ddiwydiannol na darparu cymorth ariannol ar ei gyfer.

Mae'r polisi terfynol yn nodi'n glir, yn absenoldeb cynigion gan y diwydiant, y dylai perchnogion tanwydd a ddisbyddwyd fwrw ymlaen ar y sail na chaiff tanwydd a ddisbyddwyd ei ailbrosesu ac y dylai cynlluniau rheoli gwastraff, gan gynnwys cynlluniau cyllido, adlewyrchu hyn.

Os caiff unrhyw gynigion eu cyflwyno yn y dyfodol, cânt eu hystyried yn ôl eu rhinweddau ar y pryd a byddai Llywodraeth y DU yn disgwyl ymgynghori yn eu cylch. Byddai hyn yn cynnwys ystyried yr effaith amgylcheddol, y dos i weithwyr, cynlluniau rheoli gwastraff ac amcanion y DU o ran diogelwch, mesurau diogelu ac atal twf arfogaeth niwclear. Byddai angen i unrhyw gynigion ar gyfer ailbrosesu yn y dyfodol gydymffurfio â gofynion rheoliadol a gofynion polisi ar gyfer rheoli'r holl ddeunyddiau niwclear a ffrydiau gwastraff ymbelydrol gan gynnwys gollyngiadau i'r amgylchedd.

Yn unol â'r polisi i gynnal dull hyblyg o ddarparu ar gyfer gwahanol opsiynau rheoli, nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnwys manylion ychwanegol yn y polisi am opsiynau storio neu waredu interim. Byddai cynigion ar gyfer trefniadau storio interim ar gyfer tanwydd a ddisbyddwyd, gan gynnwys mewn cyfleusterau storio canolog, yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau ar y pryd a byddent yn amodol ar yr holl gymeradwyaeth berthnasol.

Mae nifer o fân newidiadau drafftio wedi cael eu gwneud i'r polisi terfynol er mwyn gwneud y sefyllfa o ran ailbrosesu a rheoli tanwydd a ddisbyddwyd yn gliriach.

## Ailddefnyddio wraniwm at ddibenion milwrol

Byddai unrhyw achos o ailddefnyddio wraniwm sifil at ddibenion milwrol yn amodol ar reoliadau diogelwch.

## Thoriwm

Ym marn Llywodraeth y DU, am nad oes llawer o thoriwm o gymharu â faint o wraniwm a thanwydd a ddisbyddwyd sydd yn rhestr y DU, nid oes angen polisi ar wahân ar reoli thoriwm ar hyn o bryd. Caiff y sefyllfa hon ei hadolygu'n barhaus.

## Plwtoniwm

Rydym wedi tynnu'r adran ar reoli plwtoniwm allan o'r polisi terfynol gan ei bod yn destun rhaglen ar wahân fel y nodwyd gan yr NDA yn 2019[11]. Caiff rhagor o wybodaeth ei rhannu wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

[11] NDA (2019). Progress on plutonium consolidation, storage and disposition. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/progress-on-plutonium-consolidation-storage-and-disposition

# Materion a godwyd y tu hwnt i gwmpas cynigion yr ymgynghoriad

Cododd nifer o ymatebwyr bwyntiau sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad. Mae'r rhain yn cynnwys sylwadau ar y canlynol:

- prosiectau ynni niwclear newydd;
- parhau i greu gwastraff ymbelydrol;
- polisi Llywodraeth y DU ar gyfer gwaredu'r gwastraff ymbelydrol mwyaf peryglus mewn cyfleuster gwaredu daearegol;
- cyfleuster gwaredu daearegol wedi'i adeiladu o dan Fôr Iwerddon;
- gwaredu gwastraff ymbelydrol yn y môr;
- addasrwydd y ddaeareg yn Cumberland ac oddi ar arfordir Cumberland ar gyfer gwaredu daearegol;
- yr ymchwiliadau seismig a gynhaliwyd oddi ar arfordir Cumberland fel rhan o'r rhaglen cyfleuster gwaredu daearegol;
- mesurau i symleiddio'r broses o rannu eiddo deallusol sy'n eiddo i'r NDA;
- eglurder ynghylch sut mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu delio â gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd nad yw'n addas ar gyfer gwaredu ger yr wyneb.

## Prosiectau ynni niwclear newydd

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweld rôl bwysig i gyfleusterau ynni niwclear newydd, gan gynnwys adweithyddion niwclear modiwlaidd datblygedig ac adweithyddion niwclear modiwlaidd bach, er mwyn ein helpu i gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2050 a chynyddu ein sicrwydd ynni. Mae'r Strategaeth Diogelu Ffynonellau Ynni[12] yn nodi uchelgais i gynyddu'r cynlluniau ar gyfer defnyddio ynni niwclear hyd at 24 GW. Ailadroddodd Llywodraeth y DU yr uchelgais hwn yn y ddogfen *Powering up Britain*[13]. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu prosiectau niwclear newydd.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi mabwysiadu targed allyriadau sero net erbyn 2045. O ran cynhyrchu pŵer, mae'n canolbwyntio ar hyrwyddo dulliau cynhyrchu trydan adnewyddadwy fel gwynt a solar ac mae'n cynnal polisi o beidio â chynhyrchu ynni niwclear newydd o dan y technolegau presennol. Mae Cynulliad Gogledd Iwerddon, drwy basio Deddf Newid yn yr Hinsawdd (Gogledd Iwerddon) 2022, wedi mabwysiadu targed allyriadau sero net erbyn 2050. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys targed i sicrhau y bydd 80% o'r trydan a ddefnyddir yng

[12] British Energy Strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/british-energy-security-strategy
[13] Powering up Britain. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/powering-up-britain

Ngogledd Iwerddon yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030. Nid oes gan Ogledd Iwerddon orsafoedd ynni niwclear.

## Gwahardd creu gwastraff ymbelydrol

Awgrymodd ambell ymatebydd y dylid gwahardd creu mwy o wastraff ymbelydrol. Ceir llawer o ffyrdd buddiol o ddefnyddio deunyddiau ymbelydrol – yn y sector gofal iechyd, mewn systemau diogelwch fel synwyryddion mwg, mewn diwydiant ac i gynhyrchu trydan. Mae eu defnydd, wrth gwrs, yn creu gwastraff ymbelydrol. Byddai gwahardd creu gwastraff ymbelydrol yn amddifadu cymdeithas o ddeunyddiau sy’n cael eu defnyddio i wneud diagnosis o salwch difrifol a'i drin, cadw pobl yn ddiogel, gwneud gwaith ymchwil a datblygu mewn prosesau diwydiannol a chreu trydan carbon isel. Ni fyddai Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig yn cymeradwyo newid o’r fath, er bod y fframwaith polisi diwygiedig yn cynnwys gofynion i greu cyn lleied â phosibl o wastraff ymbelydrol drwy ddefnyddio’r hierarchaeth gwastraff.

## Gwaredu daearegol

Mae gwaredu gwastraff mwyaf ymbelydrol y DU mewn cyfleuster gwaredu daearegol yn bolisi sydd wedi hen ennill ei blwyf gan Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon. Caiff ei gydnabod yn rhyngwladol fel yr opsiwn hirdymor mwyaf diogel sydd ar gael ar gyfer rheoli’r gwastraff ymbelydrol mwyaf peryglus ac mae’n cael ei ddefnyddio mewn nifer o wledydd gan gynnwys Ffrainc, Sweden, y Ffindir, Canada a’r Swistir.

Mae cyfleuster gwaredu daearegol yn ynysu ac yn dal y gwastraff yn ddwfn o dan y ddaear drwy ddefnyddio nifer o rwystrau er mwyn diogelu pobl a’r amgylchedd rhag niwed. Gellir ei adeiladu mewn ffurfiannau daearegol addas yn ddwfn o dan y ddaear ar dir neu’n ddwfn o dan wely’r môr gyda chyfleusterau mynediad ar y tir. Ni chaiff cyfleuster gwaredu daearegol ei adeiladu mewn lleoliad penodol oni bai bod NWS, sef datblygwr y cyfleuster, yn gallu dangos i’r rheoleiddiwr amgylcheddol perthnasol a’r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear y bydd yn ddiogel i bobl a’r amgylchedd. Bydd cyfleuster gwaredu daearegol yn gyfleuster wedi’i saernïo'n gymhleth, p’un a gaiff ei adeiladu o dan y ddaear ar dir neu’n ddwfn o dan wely’r môr. Nid yw Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig yn cynnig gwaredu gwastraff ymbelydrol solet yn uniongyrchol i’r môr fel y mae rhai ymatebwyr wedi'i awgrymu. Mae gwaredu yn y môr wedi cael ei wahardd ers tro gan gonfensiynau rhyngwladol.

Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr fod y ddaeareg yn Cumberland ac oddi ar arfordir Cumberland yn gymhleth a’i bod eisoes yn hysbys ei bod yn anaddas ar gyfer gwaredu daearegol. Mae’r ddaeareg sy’n cael ei hystyried oddi ar yr arfordir ar hyn o bryd yn wahanol i’r hyn y gwnaeth rhaglenni blaenorol ymchwilio iddo. Nid oes penderfyniad wedi’i wneud ynghylch lleoliad cyfleuster gwaredu daearegol.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynglŷn â’r ymchwiliadau seismig a gynhaliwyd oddi ar arfordir Cumberland y llynedd. Ymhlith y pwyntiau a wnaed roedd:

- honiadau o effeithiau negyddol ar fywyd morol gan gynnwys marwolaethau o ganlyniad i'r astudiaethau seismig;
- natur ymwthiol ymchwiliadau y cyfeiriodd rhai ymatebwyr atynt fel 'chwythellu seismig';
- ni chafwyd pleidlais gyhoeddus na phleidlais yn y cyngor ynghylch a ddylid cynnal yr astudiaethau seismig.

Hoffai Llywodraeth y DU achub ar y cyfle hwn i gywiro camsyniadau ynglŷn â'r ymchwiliadau seismig. Ni chafwyd dim 'chwythellu'. Mae'r arolygon geoffisegol morol yn cynnwys creu sain o ffynhonnell o dan wyneb y dŵr, a gaiff ei thynnu y tu ôl i gwch. Fel arfer, gwneir hyn gan ddefnyddio ffynhonnell aer i greu swigod o dan y dŵr, a fydd wedyn yn chwalu i gynhyrchu'r sain. Caiff yr atseiniau a adlewyrchir yn ôl o'r gwahanol haenau yn ddwfn o dan y ddaear eu casglu gan ddefnyddio derbynyddion a gaiff eu llusgo y tu ôl i'r cwch ar ffurf stribynnau.

Cafwyd caniatâd perthnasol ar gyfer yr arolwg gan y Sefydliad Rheoli Morol (MMO). Er mwyn diogelu'r amgylchedd morol, cynhaliodd NWS asesiadau amgylcheddol yn y môr i asesu unrhyw effeithiau posibl. Drwy gydol yr arolwg, nid achoswyd yr un digwyddiad diogelwch nac amgylcheddol gan weithgareddau NWS a rhoddwyd gwybod i'r MMO am yr holl fywyd gwyllt a welwyd, yn unol ag amodau'r caniatâd a gafwyd. Yn ystod yr arolygon, cymerodd NWS gamau i sicrhau nad oedd dim anifeiliaid morol yn agos at y cwch cyn i'r ffynhonnell sain ddechrau a defnyddiwyd gardiau ar offer tanddwr i amddiffyn crwbanod.

Mae Rhaglen Ymchwil y DU i Forfilod wedi Tirio (CSIP), a ariennir gan Defra a Llywodraeth Cymru, yn cydlynu'r ymchwiliad i rywogaethau morol wedi tirio o amgylch arfordir Cymru a Lloegr. Roedd CSIP yn monitro rhywogaethau morol wedi tirio yng Ngogledd-orllewin Lloegr yn ystod cyfnod yr arolwg seismig (haf 2022) ond ni chafodd wybod am yr un achos o dirio na marwolaeth a briodolwyd i'r arolwg seismig. Daeth dadansoddiad o'r data a anfonwyd i mewn ar ôl yr arolwg i'r casgliad na ellid gwneud cysylltiadau pendant rhwng yr arolwg a'r digwyddiadau a ddisgrifiwyd.

Nid oes gan Gyngor Copeland (sydd bellach yn rhan o Gyngor Cumberland), na'r Partneriaethau Cymunedol yn ardal Cumberland rôl yn y gwaith o reoleiddio'r arolygon geoffisegol. Fodd bynnag, cynhaliodd NWS ddigwyddiadau mewn lleoliadau ledled Copeland cyn yr arolygon er mwyn rhoi cyfle i bobl leol ofyn cwestiynau, rhannu eu barn a deall mwy am y broses leoli ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol gan gynnwys yr Arolygon Geoffisegol Morol. Gwnaeth staff NWS gymryd rhan yn y digwyddiadau hynny a thrafod yr arolygon yn uniongyrchol gydag unrhyw un a oedd am ymgysylltu ar y pwnc.

## Eiddo deallusol sy'n eiddo i'r NDA

Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y gellid gwella'r polisi drwy gynnwys mesurau i symleiddio'r broses o rannu eiddo deallusol sy'n eiddo i'r NDA.

Nid yw Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn credu bod y mater hwn o fewn cwmpas polisi llywodraeth ar ddatgomisiynu ac maent yn awgrymu y dylai'r ymatebwyr hyn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r NDA drwy'r Fforwm Ymchwil Gwastraff a Datgomisiynu Niwclear

(NWDRF). Grŵp traws-sector sy'n ceisio gwella'r ffordd y caiff gwaith ymchwil a datblygu a rhaglenni technegol eu cydlynu mewn gweithgareddau adfer safleoedd a rheoli gwastraff integredig yn y DU yw'r NWDRF. Mae ei aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o Grŵp yr NDA, rheoleiddwyr a sefydliadau sydd â rhwymedigaethau sylweddol o ran datgomisiynu niwclear. Un o nodau'r NWDRF yw rhannu arferion da sefydledig a datblygu technoleg newydd er mwyn cyflawni gweithgareddau rheoli gwastraff integredig ac adfer safleoedd yn y diwydiant niwclear.

## Gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn yr Alban

Mae gan Lywodraeth yr Alban ei pholisi ar wahân ei hun ynghylch gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn yr Alban, a gyhoeddwyd yn 2011 ac a gafodd ei gynnwys yn y fframwaith drafft fel pwynt cyfeirio, ond nid yw'n destun ymgynghori ar hyn o bryd.  Caiff polisi Llywodraeth yr Alban ei ategu gan strategaeth, a gyhoeddwyd yn 2016, sy'n nodi map trywydd lefel uchel ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn yr Alban, gan gynnwys gwastraff nad yw'n addas i'w waredu ger yr wyneb o bosibl.  Mae'r strategaeth hefyd yn nodi amserlenni ar gyfer adolygu'r polisi a'r strategaeth.

Mae'r ddwy ddogfen i'w gweld drwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.gov.scot/policies/nuclear-energy/radioactive-waste/

# Atodiad 1: Rhestr o’r sefydliadau a ymatebodd

A. N. Technology Limited (ANTECH)

Abbott Risk Consulting Ltd

Arolwg Daearegol Prydain

Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA)

Asiantaeth yr Amgylchedd

Assystem

Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Unedig (UKAEA)

Awdurdodau Lleol sy’n Rhydd o Niwclear (NFLA) yn y DU ac Iwerddon.

AWE PLC

Cities 4 People

Cwmni Egino

Cyclife (UK) Limited

Cyfeillion Ardal y Llynnoedd

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Bwrdeistref Allerdale

Cyngor Bwrdeistref Copeland

Cyngor Cumberland

Cyngor Cysylltu â’r Gymuned Leol (LCLC) Bradwell

Cyngor De Swydd Gaerloyw

Cyngor Gwlad yr Haf

Cyngor Plwyf Drigg a Carleton

Cyngor Plwyf Seascale

Cyngor Rhanbarth Canol Ulster

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Tref Bridgwater

Cyngor Tref Egremont

Cyngor Westmorland a Furness

Cymdeithas y Diwydiant Niwclear

Cysyllteion Cynghorol ar Wastraff Niwclear (NWAA)

Cysyllteion Hopegill

Eden Nuclear and Environment Ltd

EDF Energy

Galson Sciences Ltd

Genesis Nuclear Ltd

Grŵp Blackwater yn Erbyn Niwclear Newydd (BANNG)

Grŵp Nichols

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Dungeness

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Harwell

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Hunterston

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Winfrith

Grŵp Rhanddeiliaid Safleoedd Gorllewin Cumbria (WCSSG)

Grwpiau Rhanddeiliaid Safleoedd ar gyfer Gorsafoedd Ynni Berkeley ac Oldbury

Historic England

Holtec Britain

Hydrock

Jacobs

K&J

newcleo Ltd

Nuleaf (Fforwm Cynghori ar Waddol Niwclear)

Nuvia UK

Partneriaeth CGD Canol Copeland

Partneriaeth Gymunedol CGD De Copeland

Partneriaeth Menter Leol Cumbria

Prifysgol Sheffield, Adran Peirianneg a Gwyddoniaeth Deunyddiau, Grŵp Ymchwil Gwaredu drwy Dyllau Turio Dwfn (DBD-RG)

Radiation Free Lakeland

RePlanet UK

Rolls-Royce SMR

Sefydliad Niwclear Dalton

Sinn Féin

Stop Hinkley

Together Against Sizewell C (TASC)

Tradebe Inutec

UK Atomics

Urenco Limited

Veolia Nuclear Solutions (UK) Ltd

Waste2Glass

Y Blaid Werdd, Ceredigion

Y Gronfa Rhwymedigaethau Niwclear

Y Labordy Ffisegol Cenedlaethol

Y Labordy Niwclear Cenedlaethol

Y Llwyfan Technoleg Halen Tawdd

Y Pwyllgor Agweddau Meddygol ar Ymbelydredd yn yr Amgylchedd (COMARE)

Y Pwyllgor ar Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (CORWM)

Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Ymchwil ac Arloesi yn y DU – Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Ymddiriedolaeth Cumbria

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o www.gov.uk/government/consultations/managing-radioactive-substances-and-nuclear-decommissioning

Os bydd angen i chi gael fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, e-bostiwch alt.formats@energysecurity.gov.uk. Rhowch wybod i ni pa fformat y bydd ei angen arnoch chi. Bydd yn help i ni os dywedwch chi pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio.